**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 HYDREF 2015 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mr. Theodore Joloza, a Mrs. Julie May

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon) a Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon).

**Ymddiheuriadau:** Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid) a Miss Caroline Roe (Cynorthwydd Swyddfa).

**Amser Dechrau: 09:30**
**Amser Gorffen: 12:15**

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Mewn cysylltiad â'r drafodaeth ynghylch Arolwg Cymunedol Caerdydd, datganodd Mr. David Powell ei fod yn byw yn Rhiwbeina. Gan mai'r unig benderfyniad i'w wneud mewn perthynas â Rhiwbeina oedd ail-enwi cynnig i'w wneud a'i orchymyn gan Gyngor Dinas Caerdydd, **Nodwyd** y datganiad. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau pellach.

**2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

2.1. **Nodwyd** bod y Gweinidog wedi cadarnhau bod penodiadau Mr Ceri Stradling a Mr David Powell wedi'u hymestyn hyd at 30 Medi 2019.

2.2. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cynhadledd Un Llais Cymru ar 3 Hydref. Mewn anerchiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, dynodwyd y newidiadau sydd ar ddod i gynghorau lleol.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Medi 2015**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2015.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Hydref gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol, gan nodi'r materion i'w trafod nes ymlaen yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd y diweddariad o ran cynnydd ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Holiadur Cyffredinol – i'w ohirio o hyd. **Steve Halsall/ Ralph Handscomb**
- (Mater 2) Arolygon o brif ardaloedd – cyfarwyddiadau desg yn parhau i gael eu diweddaru. **Matt Redmond**

- (Mater 3) Maint Cynghorau Cymuned – Cynnwys manylach i'w gael cyn cyhoeddi'r briff ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried democratiaeth leol. **Steve Halsall**
- (Mater 4) Arolygon Cymunedol - mae cyfarwyddiadau desg yn cael eu rhoi ar brawf wrth i waith fynd rhagddo ac wrth gyhoeddi arolygon. Gwaith sy'n parhau. **Matt Redmond**
- (Mater 5) Gorchymyn Cymunedol yn gwneud pwerau – Gohiriwyd hyn hyd nes bod angen y pwerau. **Steve Halsall/ Matt Redmond**
- (Mater 6) Cyfarfod y Grŵp Cynllunio Etholiadau – papur i'w baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 2 Tachwedd 2015 yn amlinellu'r dilyniant o etholiadau a'r penderfyniadau penodol yn ymwneud â phob etholiad. **Steve Halsall**
- (Mater 7) Cynllunio Arolygon Etholiadol – mae'r cynlluniau i'w diweddaru o hyd yng ngolau'r Cyfarwyddyd. Tachwedd 2015. **Matt Redmond**
- (Mater 8) Teithio a Chynhaliaeth – ymchwiliad yn mynd rhagddo i warchodaeth yswiriant. Hydref 2015. **Matt Redmond/ Rachel Williams/ Ross Evans**
- (Mater 11) Gwasanaethau Cyfreithiol – caniatâd i ymestyn y contract gydag Adran Gyfreithiol y Llywodraeth wedi'i roi gan Swyddfa'r Cabinet. Rydym yn dal i ddisgwyl am ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. **Rachel Williams**
- (Mater 14) Porth Ymgynghori Ar-lein - Mae tendr wedi'i osod a chysylltwyd ag Informed Solutions. Cyfarfod i drafod trefniadau'r prosiect wedi'i gynnal ar 9 medi 2015. Papur i ddilyn o dan Unrhyw Fusnes Arall. **Matt Redmond**
- (Mater 15) Adroddiad Blynyddol – Mae'n barod i'w gyhoeddi. Rydym yn dal i ddisgwyl i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad. Hydref 2015. **Steve Halsall**
- (Mater 17) Safonau'r Gymraeg – disgwyl rheoliadau ac yna drafftio hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. **Steve Halsall**
- (Mater 18) Mandad Banc – Wedi'i gytuno, a newidiadau ar waith nawr. **Dave Carr**
- (Mater 21) Cyfathrebiadau ynglŷn â'r rhaglen arolygon – mynychodd Owen Watkin Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar 3 Hydref. **Owen Watkin**
- (Mater 23) Adeiladau – disgwyl am ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynnig i ymestyn y brydles. Gwnaed sylwadau i Ethical Properties ynglŷn â'r gwaith adeiladu sydd wedi'i gynllunio mewn adeiladau cyfagos – sylw i amodau'r brydles i sicrhau lle parcio, mynediad i Tŷ Hastings, a lliniaru sŵn a niwsans. **Steve Halsall**
- (Mater 24) Ffiniau tua'r Môr – prosiect yn dal wedi'i roi o'r neilltu, a chyngor cyfreithiol i'w gael o hyd. **Steve Halsall**

5. **Cylch Gorchwyl Cyfarfod y Comisiwn**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig Hydref 2015 gan y Prif Weithredwr. Roedd yr Adroddiad yn diweddaru rolau a chyfrifoldebau'r Comisiynwyr o ganlyniad i'r cynnydd o 3 i 5 o aelodau.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad, yn amodol ar ddiwygio'r Telerau sy'n amodi

- 3.1 – Bod gan y Comisiwn bwerau i wneud Gorchmynion
- 4.3 – Bod y Comisiwn drwy Statud yn cynnwys pum aelod, gan gynnwys y Cadeirydd;
- 6.3 – Y bydd angen lleiafswm o dri Chomisiynydd i fod yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn gwneud penderfyniadau.
- 6.5 – Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyfarfod, gofynnir i'r Cadeirydd roi sylw ar y drafft o'r cofnodion o'r materion a drafodwyd, a bydd y drafft a gytunir yn cael ei gyflwyno wedyn i'w ystyried gan y Comisiwn yn ei gyfarfod cyffredin nesaf.

5.3. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn amodol ar y diwygiadau a nodwyd uchod.

5.4. **Penderfynodd** y Comisiwn i adolygu Cylch Gorchwyl y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2016. **Gweithredu: Y Prif Weithredwr**

## 6. Cyfarfod Rhwng Comisiynau : Adroddiad Drafft

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 2 Hydref 2015 gan y Prif Weithredwr.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a chytunodd ei fod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. **Gweithredu: Y Prif Weithredwr**

## 7. Ymgynghoriad ynghylch Arweiniad ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 30 Medi gan y Prif Weithredwr.

7.2. Croesawodd y Comisiwn y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Er nad yw'r Comisiwn yn cael ei enwi'n benodol yn y Bil, penderfynwyd y byddai'r Comisiwn yn dilyn ac yn derbyn argymhellion fel y'u gosodwyd ar Lywodraeth Cymru, gweithdrefn y mae eisoes yn ei dilyn (e.e. prosiect cynaliadwyedd y Ddraig Werdd)..

7.3. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn a bydd y Prif Weithredwr yn drafftio ymateb i'r ymgynghoriad ac yn ei gylchredeg. **Gweithredu: Y Prif Weithredwr**.

## 8. Is-Bwyllgor y Gweithlu

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Hydref 2015 gan y Prif Weithredwr.

8.2. **Nododd** y Comisiwn gofnodion y cyfarfod a'r argymhellion a wnaed gan is-bwyllgor y gweithlu.

8.3. **Penderfynodd** y Comisiynau y byddent yn adolygu'r argymhellion ac yn gwneud sylwadau i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2016, neu'n gynharach, wrth i waith ar y Gwaith Arolygon Cychwynnol fynd yn ei flaen.

## 9. Arolwg Cymunedol Caerdydd

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Medi gan y Swyddog Arolygon.

9.2. **Nododd** y Comisiwn y newidiadau i enwau Cymunedau Gabalfa a Rhiwbeina i Gabalfa a Mynachdy a Rhiwbeina a Phantmawr yn y drefn honno, a fydd yn cael eu creu drwy orchymyn gan Gyngor Dinas Caerdydd. **Derbyniodd** y Comisiwn y cynlluniau canlynol a gyflwynwyd gan y Swyddog Arolygon.

- *Cynllun 1*
  Newid i'r ffin gymunedol rhwng Cyncoed a Phentwyn
- *Cynllun 2*
  Newid i'r ffin gymunedol rhwng Cyncoed a Llanisien
- *Cynllun 3*
  Newid i'r ffin gymunedol rhwng Cyncoed a Phentwyn
- *Cynllun 4*
  Creu Cymuned newydd Llanedeyrn
- *Cynllun 5*
  Newid i'r ffin gymunedol rhwng Llanrhymni a Rhymni
- *Cynllun 6*
  Newid i'r ffin gymunedol rhwng Trowbridge a Rhymni
- *Cynllun 7*
  Creu Cymuned newydd Tremorfa
- *Cynllun 8*
  Creu Cymuned newydd Pontcanna
- *Cynllun 9*
  Creu Cymuned newydd Thornhill

9.3. Ystyriodd y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol i wardiau etholiadol y byddai eu hangen ar ôl newid enwau Cymunedau Gabalfa a Rhiwbeina. **Cytunwyd** y byddai angen i'r wardiau etholiadol adlewyrchu enwau newydd y cymunedau.

9.4. Ystyriodd y Comisiwn Adran 6 o'r adroddiad a **Chytunodd** y byddai'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad gydag ychydig o ddiwygiadau i gynnwys nifer yr etholwyr yr effeithir arnynt gan y newidiadau, gan y byddai hyn yn ychwanegu at y rhesymu ar gyfer y cynigion.

9.5. Mae'r Swyddog Arolygon i ddrafftio'r Adroddiad Cynigion Terfynol. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

## 10. Amrywiaeth y Bwrdd

10.1. Ystyriodd y Comisiwn ei ymateb i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu

Tlodi ar ôl lansio Cais am Dystiolaeth / Call for Evidence ar gynyddu cynrychiolaeth merched a grwpiau eraill sydd heb ddigon o gynrychiolaeth ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai ymateb yn cael ei ddrafftio a'i roi gerbron cyfarfod mis Tachwedd i'w ystyried cyn ei gyflwyno. **Gweithredu: Y Prif Weithredwr**

## 11. Rheoli Risg

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Hydref 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. **Cytunodd** y Comisiwn y newidiadau i'r Gofrestr Risgiau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Comisiwn.

11.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 12. Adroddiad ar y Gyllideb.

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Hydref 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Hydref 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. **Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad ar statws presennol yr arolygon, ac i nodi diweddariadau ychwanegol ar y canlynol.

- **Arolwg Cymunedol Sir y Fflint**: Mae'r arolwg hwn wedi'i gyhoeddi erbyn hyn.
- **Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot**: **Cytunwyd** bod yr Adroddiad Cynigion Drafft mewn perthynas ag ardal Brombil i'w baratoi ar gyfer ei gyhoeddi.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nodwyd** y calendr**.**

## 15. Enwau Lleoedd Cymraeg Sir Ddinbych

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r enwau lleoedd arfaethedig ar gyfer Wardiau etholiadol yn dilyn barnau gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

**Cytunwyd** bod y Comisiwn yn ffafrio'r canlynol.

- Bachegraig – Bachegraig
- Denbigh Central – Canol Dinbych
- Dyserth – Dyserth
- Prestatyn Central and East – Canol a Dwyrain Prestatyn
- Prestatyn West – Gorllewin Prestatyn
- Rhyl Tŷ Newydd – Y Rhyl Tŷ Newydd

**Gweithredu - Swyddog Arolygon**

## 16. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

**Porth Ymgynghori Ar-lein:**

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr a dynnodd sylw at newid yn y gost a ddyfynnwyd gan Informed Solutions ar gyfer gweithredu'r Porth Ymgynghori Ar-lein.

16.2. **Cytunwyd** i dderbyn y dyfynbris diwygiedig. **Cytunwyd** i drafod y dyfynbris diwygiedig gyda Llywodraeth Cymru, a thynnu sylw at ganlyniadau posibl a allai ddeillio o ran oedi gyda chyfarwyddyd ar gyfer y Rhaglen Arolygon Cychwynnol. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

**Ymweliad yr Arolwg Ordnans:**

16.3. **Cytunwyd** y byddai dyddiad ym mis Chwefror yn cael ei bennu i'r Comisiynwyr a dau Swyddog Arolygon i fynychu ymweliad safle ym Mhencadlys yr Arolwg Ordnans. **Gweithredu: Swyddog Arolygon**

**Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:**

16.4. **Cytunwyd** y byddai Mr Theodore Joloza yn ymuno â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel aelod ychwanegol.

**Is-bwyllgor y Gweithlu:**

16.5. **Cytunwyd** y byddai Mrs Julie May yn ymuno ag Is-bwyllgor y Gweithlu fel aelod ychwanegol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2015**